| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r: | Cyngor Sir |
| Dyddiad y Cyfarfod: | 30 Ionawr 2018 |
| Aelod Arweiniol / Swyddog: | Julian Thompson-Hill/ Richard Weigh |
| Awdur yr Adroddiad: | Richard Weigh, Pennaeth Cyllid |
| Teitl: | Cyllideb 2018/19 – Cynigion Terfynol |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad yn nodi goblygiadau Setliad Llywodraeth Leol 2018/19 a chynigion i gwblhau'r gyllideb ar gyfer 2018/19.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Cyngor bennu cyllideb gytbwys y gellir ei chyflawni cyn dechrau pob blwyddyn ariannol a gosod lefel sy'n deillio o Dreth y Cyngor i ganiatáu i filiau gael eu hanfon at breswylwyr.

2.2 Darparu trosolwg o broses y gyllideb ac effaith y Setliad Llywodraeth Leol a chymeradwyo'r gyllideb ar gyfer 2018/19, gan gynnwys lefel Treth y Cyngor.

## 3. Beth yw'r argymhellion?

3.1 Nodi effaith Setliad Llywodraeth Leol 2018/19.

3.2 Cymeradwyo'r gyllideb a amlinellir yn Atodiad 1, sy'n cyd-fynd â'r rhagdybiaethau a gyflwynwyd i aelodau yng nghyfarfodydd briffio'r gyllideb a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2017.

3.3 Cymeradwyo'r arbedion, sy'n dod i gyfanswm o £411k ac sydd wedi'u rhestru yn Atodiad 2, fel rhan o'r pecyn cyllideb.

3.4 Cymeradwyo'r cynnydd cyfartalog o 4.75% yn Nhreth y Cyngor, sy'n cydnabod y pwysau cynyddol o ran costau ar wasanaethau gofal cymdeithasol plant ac oedolion ac yn cefnogi'r dyraniad o £1.5m o gyllid ychwanegol ar draws y ddau wasanaeth.

3.5 Bod y Cyngor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiadau o Effaith ar Les a gyflwynwyd fel rhan o broses y gyllideb.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Derbyniwyd y Setliad Llywodraeth Leol Terfynol ar gyfer 2018/19 ar 20 Rhagfyr ac fe arweiniodd at ostyngiad arian parod o -0.2% (cyfartaledd Cymru yw +0.2%). Roedd y Setliad Dros Dro a dderbyniwyd ym mis Hydref yn nodi gostyngiad o -0.9% (cyfartaledd Cymru yw 0.5%). Er mwyn i'r sefyllfa ariannu fod yn niwtral, o ran y pwysau *lleiaf posibl*

ar gyllid yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, byddai’r Setliad wedi gorfod bod yn +3.6% fan lleiaf.

4.2 Mae’r newid rhwng y ddau yn adlewyrchu’r £20m ychwanegol a ddyrannwyd i lywodraeth leol fel rhan o gynigion cyllideb terfynol Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn dilyn cyllid ychwanegol a ddyrannwyd i Gymru o ganlyniad i gyllideb Llywodraeth y DU ym mis Tachwedd a mae’n lliniaru effaith cynnig tâl diweddaraf y cyflogwr, a oedd yn uwch na’r disgwyl ac yn adlewyrchu‘r camau a gymerwyd oddi wrth y polisi o gap o 1% ar gyflogau.

Mae ‘trosglwyddiadau i mewn’ (eitemau a ariannwyd drwy grantiau yn flaenorol) gwerth £2.9m hefyd wedi'u cynnwys yn y Setliad. Maent fel a ganlyn:

- Elfen wastraff o’r Grant Amgylcheddol Sengl £1.2m
- Grant Byw’n Annibynnol Cymru £0.8m
- Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol £0.6m
- Plant sy'n Derbyn Gofal £0.2m
- Grant Gofal Seibiant i Ofalwyr £0.1m

4.4 Dylid nodi bod swm y Grant Amgylcheddol Sengl wedi cael ei ostwng o 10%.

4.5 Mae cyfrifoldebau newydd hefyd wedi’u cynnwys yn y Setliad a bydd y rhain yn cael eu trosglwyddo’n uniongyrchol i’r gwasanaeth perthnasol. Y rhain yw:

- Cefnogaeth i Atal Digartrefedd £0.155m
- Cynnydd yn y Terfyn Cyfalaf ar gyfer Ffioedd Gofal Preswyl £0.251m

4.6 Mae’r cynigion terfynol i gydbwyso cyllideb 2018/19 i’w gweld yn y detholiad o Gynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn Atodiad 1. Mae’r penawdau, ar y cyfan, wedi’u gosod fel y cawsant eu cyflwyno i'r aelodau ym mis Tachwedd, y prif newid yw bod y toriad i’r Setliad yn llai ond mae’r pwysau o ran costau wedi cynyddu. Y pwyntiau cyffredinol yw:

- Gostyngiad o 0.2% yn nhermau arian parod i’r Setliad (GCR -£276k)
- Ariennir pwysau cyflogau, pensiynau a’r Cyflog Byw Cenedlaethol (£1.6m)
- Chwyddiant pris ac ynni (£250k)
- Cynnydd o 1% i ardoll y gwasanaeth tân (£44k)
- Lle ar gyfer cynnydd i gostau’r Cynllun Gostyngiadau i Dreth y Cyngor, gostyngiad i Grant Gweinyddu yr Adran Gwaith a Phensiynau a chronfeydd wrth gefn canolog (£740k)

4.7 Yn ychwanegol, mae’r cyngor yn parhau i gefnogi ysgolion drwy ariannu tâl a chwyddiant cysylltiedig ac unrhyw newid mewn perthynas â nifer y disgyblion. Mae hyn yn cyfateb â chynnydd o ran arian parod o £1.792m i ysgolion (cyfanswm o 2.7%). Bydd dyraniad y cyngor o gymorth i sicrhau bod y sefyllfa sefydlog o ran balansau ysgolion yn parhau. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd y Grant Gwella Addysg yn wynebu toriad o 11% a bydd hyn yn effeithio ar gyllidebau ysgolion.

4.8 Mae’r cynigion ar gyfer 2018/19 yn cynnwys buddsoddiad cyllideb refeniw ychwanegol o £500k mewn Blaenoriaethau Corfforaethol. Mae hyn yn ychwanegol i’r £1m o arian parod a nodwyd a chymeradwywyd yn 2017/18.

4.9 Er mwyn ariannu’r pwysau a nodwyd, bu’n rhaid canfod arbedion o £4.6m. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Newidiadau i bolisi Isafswm Darpariaeth Refeniw’r Cyngor (cytunwyd gan y Cyngor Llawn ym mis Medi 2017), cynhyrchu arbedion parhaus o £2m a darparu clustog ariannol yn 2018/19.
- Arbedion corfforaethol a nodwyd yn 2017/18 (£1m)
- Arbedion effeithlonrwydd gwasanaeth (£1.2m)
- Arbedion gwasanaeth (£0.4m)

4.10 Roedd proses y gyllideb ar gyfer 2018/19 yn ei gwneud yn ofynnol i’r holl wasanaethau, ac eithrio ysgolion, ganfod arbedion effeithlonrwydd o 1% ac i wasanaethau, ac eithrio Gwasanaethau Cymorth Cymunedol a Gwasanaethau Addysg a Phlant, ganfod arbedion pellach o hyd at 2.8%. Roedd y targedau hyn yn seiliedig ar ragdybiaethau’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig fis Ebrill diwethaf. Cynhaliwyd proses yn yr hydref i adolygu’r holl gynigion gwasanaeth gyda’r Tîm Gweithredol Corfforaethol, Aelodau Arweiniol a Chyllid. Roedd y broses hefyd yn cynnwys dadansoddiad manwl o gyllidebau gwasanaeth, incwm a chronfeydd arian parod wrth gefn. Canlyniad y broses oedd cadarnhau arbedion effeithlonrwydd o £1.2m i’w cymeradwyo a’u gweithredu gan y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol. Dosbarthwyd y manylion am yr arbedion ymysg yr aelodau ac mae’r manylion hefyd wedi’u cofnodi yn llyfrgell yr aelodau ar-lein. Ystyriwyd bod arbedion pellach o £411k yn effeithio ar ddarpariaeth gwasanaeth neu newid i’r dull darparu. Mae’r rhain wedi’u rhestru yn Atodiad 2 ac mae Asesiadau o Effaith ar Les wedi’u hatodi ar gyfer pob cynnig.

4.11 Adolygwyd rhagdybiaethau Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor ym mis Gorffennaf ac ailaseswyd y pwysau o ran costau. Er i’r mwyafrif o ragdybiaethau'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig brofi’n gywir, gwelwyd cynnydd i lefel y pwysau costau mewn perthynas â darpariaeth gofal cymdeithasol plant ac oedolion o gymharu ag asesiadau blaenorol. Gwelwyd cynnydd ym mhwysau costau o fewn y ddau faes darparu hyn yn y blynyddoedd diwethaf ond mae’r cyngor wedi llwyddo i reoli’r pwysau drwy ddefnyddio cronfeydd arian parod wrth gefn penodol, mewn modd rheoledig i esmwytho’r effaith. Mae costau iechyd meddwl a darpariaeth i oedolion iau wedi cynyddu y tu hwnt i ddisgwyliadau hyd yma yn 2017/ 18, sy’n golygu y bydd cyfanswm yr arian parod sydd ar gael i leihau’r pwysau yn llai yn y dyfodol. Mae’r un peth yn wir am leoliadau preswyl arbenigol i blant, ac mae’r galw am leoliadau wedi cynyddu’n sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

4.12 Gan fod natur y pwysau hwn yn barhaus, nid yw’n gynaliadwy i reoli’r pwysau hyn heb gynyddu sail cyllid y cyngor yn barhaol. Wrth i gefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru leihau yn flynyddol, mae’n rhaid ysgwyddo’r baich yn lleol ac felly cynigir cynnydd yn Nhreth y Cyngor sydd yn uwch nag y cynlluniwyd yn wreiddiol.

4.13 Bydd codi Treth y Cyngor o 4.75% yn codi £945k yn ychwanegol o gymharu â’r cynnig gwreiddiol o 2.75%. Bydd y swm ychwanegol hwn yn cael ei ddefnyddio fel rhan o’r

pecyn cyffredinol, sy’n cynnwys dyraniad ychwanegol i ofal cymdeithasol o £1.5m. Byddai’r cynnydd arfaethedig yn ychwanegu £56.58 y flwyddyn at ffi gyffredinol eiddo Band D (£1.08 yr wythnos) ac mae hyn yn £23.82 (46c yr wythnos) yn uwch y flwyddyn na’r cynnig gwreiddiol. Nodir hyn yn Atodiad 3.

4.14 Mae cynigion y gyllideb yn parhau i gynnwys elfen o gyllid i gefnogi’r sefyllfa gyffredinol. Nid yw hon yn sefyllfa ddelfrydol ac mae’n adlewyrchu’r sefyllfa ariannol anodd a pharhaus sy’n wynebu’r cyngor. Mae’r arian parod a nodwyd ar gyfer 2018/19 wedi’i gynhyrchu o adolygiad polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw ac yn caniatáu i arian parod, a nodwyd ar gyfer 2018/19 yn flaenorol, gael ei gario ymlaen i 2019/20. Bydd hyn o gymorth i esmwytho effaith gostyngiadau pellach i gyllid yn 2019/20, pan fydd y bwlch cyllidol, yn seiliedig ar ragdybiaethau presennol, yn £6.4m.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Flaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae rheolaeth effeithiol o gyllidebau’r cyngor a chyflawni'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd yn sylfaen i weithgareddau ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol. Mae’r cynigion yn cynnwys dyraniadau i gefnogi’r blaenoriaethau newydd.

## 6. Faint fydd yn gostio a sut fydd yn effeithio ar y gwasanaethau eraill?

6.1 Fel y nodwyd uchod.

## 7. Beth yw prif ganlyniadau’r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1 Mae asesiadau o effaith ar les ar gyfer y cynigion ar gyfer arbedion yn Atodiad 2 a’r cynnydd yn Nhreth y Cyngor wedi’u hatodi. Roedd asesiad ar gyfer y newid i bolisi Isafswm Darpariaeth Refeniw hefyd wedi’i gynnwys yn yr adroddiad i’r Cyngor ym mis Medi.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cyflawni gyda’r Pwyllgor Archwilio ac eraill?

8.1 Cafodd Aelodau eu briffio ar y sefyllfa ariannol ym mis Medi ac yn dilyn cyhoeddi’r setliad dros dro ym mis Hydref. Cynhaliwyd dau gyfarfod penodol briffio’r gyllideb ym mis Tachwedd. Mae’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth wedi bod yn rhan o broses y gyllideb. Mae sesiynau briffio gyda grwpiau gwleidyddol wedi cael eu cynnig gan yr Aelod Arweiniol.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Nod y broses gyllidebol yw sicrhau bod y cyngor yn cyflwyno cyllideb gytbwys. Mae'r ansicrwydd dros lefel y setliadau ariannol yn y blynyddoedd diwethaf wedi gwneud cynllunio ariannol o dan amgylchiadau sydd eisoes yn anodd hyd yn oed yn fwy heriol.

Mae'n fwy tebygol bellach y bydd gostyngiadau cyllid i awdurdodau lleol yng Nghymru yn parhau yn y tymor canolig ac er y bydd y cyngor bob amser yn ymdrechu i fod yn fwy effeithlon er mwyn arbed arian, efallai na fydd hyn ynddo' i hun yn ddigonol yn y dyfodol. Mae’r detholiad o Gynllun Ariannol Tymor Canolig cyfredol y Cyngor yn nodi

gofyniad arbedion o dros £6m y flwyddyn am y ddwy flynedd nesaf. Bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar y cyngor a’r gwasanaethau y mae’n ddarparu.

Mae’r gyllideb sydd wedi’i chynnig ar gyfer 2018/19 yn caniatáu amser i’r cyngor lunio rhaglen gyllideb a chynigion ar gyfer y ddwy flynedd ariannol nesaf. Bydd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cael ei ddiweddaru ar ddechrau 2019 a bydd yn ategu'r broses gyllidebol ar gyfer y ddwy flynedd nesaf.

Mae pwysau gofal cymdeithasol yn risg barhaus ar gyfer y cyngor hwn a phob cyngor arall. Mae’r cynigion yn 2018/19 o gymorth i liniaru'r galw a’r pwysau o ran costau ond nid yw’n ddigonol i ariannu’r holl bwysau sylfaenol yn llawn ac yn barhaol. Mae’r pwysau o ran costau o fewn meysydd gwasanaeth eraill yn cael eu rheoli ond gallai fod yn risg mewn blynyddoedd i ddod.

Os nad yw’r cynigion yn yr adroddiad hwn yn cael eu derbyn, mae’n rhaid cyflwyno cynigion eraill i gydbwyso’r gyllideb.

10. **Pa risgiau sydd yn bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?**

10.1 Mae proses y gyllideb ynddi ei hun yn fesur ar gyfer rheoli risg, gyda'r nod o ddynodi, asesu a chytuno ar gynigion y gyllideb mewn modd cynlluniedig ac amserol.

10.2 Byddai methu a chytuno ar y cynigion hyn, heb gynnig cynigion posibl eraill, yn peryglu ein bwriad o gyflawni cyllideb gytbwys ar gyfer 2018/19.

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae’n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.